

CYNGOR CYMUNED LLANWENOG COMMUNITY COUNCIL

Neuadd y Pentref, Drefach am 7.30yh 1af o Hydref 2015

Yn bresennol / Present: Cyng Geraint Davies, Cyng Lewis Davies, Cyng. Gwilym Jenkins, Cyng Daff Davies, Cyng Mary Thomas, Cyng Bill Green, Cyng Geraint Hatcher, Cyng Daniel Evans

Ymddiheiriadau/ Apologise: Cyng Helen Howells, Cyng Alun James, Cyng Euros Davies

Hefyd yn bresennol/Also Present: Eifion Evans, Cyngor Sir Ceredigion

Materion Personol/Personal Matters

Estynwyd cydymdeimlad gyda'r Cyng Euros Davies ar farwolaeth ei frawd yng nghyfraith Iorwerth James a'r Cyng Alun James ar golli ei chwaer, i Wenella Evans a'r teulu, y cyn Clerc ar farwolaeth ei thad ac i deulu Jim Warral o'r Llang Brydeinig a fu farw'n ddiweddar. Condolences were extended to Cllr Euros Davies on the death of his brother in law Iorwerth James and Cllr Alun James on losing his sister, to Wenella Evans and family, the former Clerk on the passing of her father and to the family of Jim Warral from the British Legion who passed away recently.

1	<u>Datgelu Buddianau Personol/Declare Personal Interests</u> Nid oedd neb yn datgelu buddiant personol. Nobody declared a personal interest.
2	<u>Cadarnhau'r Cofnodion / Agree Minutes</u> Cafwyd cofnodion cyfarfod mis Medi yn gywir gan y Cyng. Mary Thomas ac fe'i eiliwyd gan y Cyng. Bill Green. The September minutes were proposed as a true record by Cllr Mary Thomas and seconded by Cllr Bill Green.
3.	<u>Materion yn Codi – Matters Arising</u>
a.	Les Cae Chwarae Cae Sarn Playing Field Lease – Roedd y Clerc wedi derbyn cyngor cyfrieithiol gan CAVO a chodwyd nifer o faterion yn y Les Ddrafft. Penderfynwyd o'r pwyntiau a godwyd nad oedd modd arwyddo'r les fel ag y mae ac y byddai'r Clerc yn danfon ebost i'r Cyngor Sir yn tanlinellu'r pwyntiau sydd angen eu newid, mi fyddai hefyd yn diweddarau Pwyllgor y Cae Chwarae ar y sefyllfa bresenol. The Clerk had received solicitor's advice from CAVO and a number of issues were raised from the draft Lease. It was decided that it was not possible to enter into the Lease as it stands, the Clerk will send the County Council an email highlighting the matters which need addressing. She will also keep the Playing Fields Committee informed.
b.	Llwybrau Cyhoeddus – Public Footpaths – Mi fydd y Cyngor Sir yn llenwi fewn yr afon yn y man lle mae wedi erydu ar hyd llwybr yr Aber ac mi fyddant hefyd yn torri'r llwybr. Mae llwybr Highmead wedi ei dorri gan Gareth Evans. The County Council will fill in the area of the river which has eroded away along the Aber footpath and they will also cut the footpath. The Highmead footpath has been cut by Gareth Evans.
c.	Cwrs Cynllunio Aberystwyth – Planning Aid Wales Seminar – Mynychodd y Cyng Geraint Davies, Cyng Daff Davies a'r Clerc y Seminar yn Aberystwyth ac mi roedd yn sôn am y newidiadau a ddaw yn sgil y bill cynllunio newydd. Mi fydd datblygwyr ar geisiadau mawr yn gorfod ymgynghori a'r gymuned cyn cyflwyno cais cynllunio gan ysgrifennu adroddiad ar yr

hyn a ddywedwyd. Mae hefyd modd i gynghorau ddod at ei gilydd i greu 'Place Plans' a fyddai'n cynnwys dyheadau'r ardal ar gyfer datbygiadau'r dyfodol. Ond nodwyd efallai fod yr ardal hon yn rhy fach ar gyfer datblygiadau mawr, ond y byddai'n syniad gofyn i'r gymuned beth yr hoffent weld yn digwydd yn y Plwyf. Cllr Geraint Davies, Cllr Daff Davies and the Clerk attended a Seminar on the Planning Bill and the changes that will come as part of it. The main change is that developers will have to consult with the community on major developments before submitting a planning application and write a report on the discussions. It's also possible for community councils to come together to create 'Place Plans' stating what developments they wish to see in the area in the future. It was noted that this area is probably too small for any large developments, however it would be an idea to liaise with the community to know what they wish to see happening in the Parish.

d.

Cofgolofn Drefach War Memorial – Ymunodd Eifion Evans o Gyngor Sir Ceredigion a'r cyfarfod i drafod y pwynt yma. Nodwyd bod Cais Cynllunio wedi ei gymeradwyo gan CADW a'r Cyngor Sir i symud y gofgolofn er mwyn creu mynedfa i'r ysgol newydd (sydd hefyd wedi derbyn caniatad cynllunio). Gan nad y Cyngor Sir sydd berchen y gofgolofn na'r tir y mae'n sefyll arno mae'n rhaid iddynt gael trwydded a chaniatad wrth yr ymddiriedolwyr, sef y Cyngor Cymuned, i symud y gofgolofn a'r hyn sydd o fewn y wal er mwyn defnyddio'r tir i gael mynedfa i'r safle. Nodwyd y bydd storfa yn cadw holl eiddo'r Cyngor Cymuned yn cael ei osod ar safle maes parcio Tafarn y Cledlyn a bydd allwedd y storfa honno yn cael ei roi i'r Cyngor Cymuned. Nodwyd y byddai Cyngor Sir Ceredigion yn talu am yr holl waith o symud ac ail-leoli'r gofgolofn, costau yswiriant, yr holl gostau cyfreithiol a chostau unrhyw adroddiadau. Mi fydd unrhywun sydd am ymweld a'r gofgolofn naill ai ar Sul y Cofio neu ar ddiwrnod arall yn cael defnyddio maes parcio'r ysgol. Wedi i Eifion Evans adael trafodwyd y sefyllfa a'r drwydded ddrafft ac roedd yr ymddiriedolwyr ar ran y gofgolofn yn unfrydol, mae er lles y gofgolofn, mae ei symud hi a'r eiddo arall ryw 5m i'r De i fewn i'r cae, oddi ar y brif ffordd fyddai orau er mwyn ei diogelu a diogelu'r cyhoedd sy'n ymweld â hi. Cytunwyd y byddai pobl dal yn medru eu gweld o'r heol ac mi fyddai dal yn rhan allweddol o'r pentref. Y cam nesaf fyddai cael cyngor cyfreithiol cyfreithwyr ADVE ar y dogfennau, rhoddwyd caniatad dirprwyol i'r Cadeirydd, yr Is Gadeirydd a'r Clerc i barhau a'r gwaith hyd nes y cyfarfod nesaf. Eifion Evans from Ceredigion County Council joined the meeting to discuss this point on the agenda. It was noted that Planning Permission has been granted for the re-positioning of the war memorial in order to create a new entrance to the new school (which has also been granted planning permission). Because the County Council don't own the war memorial or the land which it sits on, they require a licence from the trustees, Community Council, to remove the memorial and the content within the wall to gain access to the site over this land. It was noted that the store container will be positioned on Tafarn y Cledlyn's car park and the key to that container will be given to the Community Council. The County Council will pay for the work of re-locating the war memorial, insurance, all solicitors fees and the cost of any reports required. Anyone visitor to the war memorial will be allowed to use the schools car park. When Eifion Evans left the meeting the trustees discussed the matter and draft licence and all were in agreement that in the best interest of the war memorial moving it 5m to the South into the field off the main road would be in a safer position for the memorial itself against any damage and for those visiting the site. It was agreed that people passing by on the main road will still be able to see the memorial from the road and it will remain an integral part of the village. The next step will be to gain a

	<p>solicitor's advice from ADVE on the documents, delegation was given to the Chairman, Vice-Chairman and Clerk to proceed with the discussions between now and the next meeting.</p>
<p>4.</p>	<p><u>Gohebiaeth</u></p> <p>a. Un Llais Cymru Pwyllgor Ardal 14/10/2015 One Voice Wales Area Meeting – Mi fyddai'r Cadeirydd, Cyng Geraint Davies yn trio mynychu. The Chairman, Cllr Geraint Davies will try to attend.</p> <p>b. Mark Williams MP Cymorthfaeodd – Surgeries. Mae'r poster wedi ei roi yn hysbysfwrdd Drefach. The poster has been pinned to the noticeboard in Drefach.</p> <p>c. Deddf Hapchwarae 2005 – Adolygiad o'r Datganiad Polisi Gamblo. Nodwyd. Review of the Statement of Gambling Policy Gambling Act 2005. Noted.</p> <p>d. Rhybudd Gorchymyn Ailddosbarthu'r Map Diffiniol Llwybr 59/15 Troedyrhiw i Penrhiwfach i fod yn lwybr Ceffyl – Wedi ei Gadarnhau. Notice of a Definitive Map Reclassification Order Path 59/15 Troedyrhiw to Penrhiwfach to a Bridleway – Confirmed.</p> <p>e. Grwp Prosiect Iechyd Meddwl Bwrdd Iechyd Hywel Dda Mental Health Project Group. Rhwng nawr a'r 30ain o Dachwedd fe allwch ddarganfod mwy am waith y grwp, eu bwriad yw sicrhau bod pobl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt cyn gynted â phosib, a lleihau gofid. Between now and the 30th November you can find out more about the work of the group, the aim is to ensure that people receive the support they need at the earliest opportunity to reduce distress.</p> <p>f. Trowch eich Neuadd Bentref yn theatr dros dro. Turn your village hall into a theatre. Danfonwyd y manylion at Neuadd yr Hafod. Details were sent onto Neuadd yr Hafod, Gorsgoch.</p>
<p>5.</p>	<p><u>Taliadau a Ceisiadau am Arian / Payments and Requests for Money</u></p> <p>a. Urdd Gobaith Cymru - £25.00 Cynnig/Proposed: Cyng Bill Green Eilio/Seconded: Cyng Mary Thomas</p> <p>b. Treuilau'r Clerc/Clerk's Expenses - £74.28</p> <p>c. BDO- Archwiliad Allanol / External Audit - £246.00</p> <p>d. Cyfieithu / Translation - £223.68</p> <p>e. Torri Llwybr Highmead Terrace Footpath Cutting - £132.00</p> <p>Cadarnhawyd talu pwytau 5b-5e fel rhai gorfodol. Payments 5b-5e were agreed as statutory payments.</p>

<p>6.</p> <p>a.</p> <p>b.</p> <p>c.</p>	<p><u>Cyfrifon / Accounts</u></p> <p>Adroddiad Cwarterol /Quarterly Report – Derbyniwyd yr adroddiad cwarterol o sefyllfa ariannol y Cyngor Cymuned yn erbyn y <i>budget</i> can y Clerc. Roedd pawb yn hapus gyda’r adroddiad ac arwyddwyd y cyfriflenni gan yr is-gadeirydd. The quarterly report was received on the Community Council’s financial position against the budget by the Clerk. Everyone was happy with the report and the bank statements were signed by the vice-chairman.</p> <p>Adroddiad BDO Report – Derbyniwyd adroddiad y BDO ac yn fras dyma’r pwyntiau a godwyd ac sydd wedi eu trafod gan y Cyngor Cymuned ac a fydd yn cael eu cymryd i ystyriaeth yn ystod y flwyddyn ariannol hon. The report from the BDO was received and in summary the following points were raised and discussed by the Community Council and they will be taken into account during this financial year.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Minor Issues • Financial Regulations • Budgetary Process • Fixed Assets • Fixed assets included at valuation • Expenditure powers – S137 power incorrectly used <p>Trefniadau Archwilio Allanol: Ffurflenni Blynnyddol 2015-2019 – External Audit Arrangement Annual Returns 2015-2019 – Cwmni Grant Thornton fydd yn ymgymeryd a’r archwiliad allanol am y blynnyddoedd nesaf yn lle BDO. Grant Thornton company will undertake the external audit inspection for the next few years instead of BDO.</p>
<p>7.</p> <p>a.</p> <p>b.</p> <p>c.</p>	<p><u>Cynllunio / Planning</u></p> <p>A150539 - Maes y Garn, Gorsgoch, Llanybydder - Erection of a solar photovoltaic array including metering and inverter kiosks, security cameras, fencing and gates and a temporary construction compound and access track. - Dim gwrthwynebiad fodd bynnag mae trigolion Gorsgoch wedi bod yn siarad gyda deiliaid y ddaear a’r ymgeisydd i drïo cael ychydig o arian o’r cais tuag at y Capel a’r Neuadd. No objection however the local village of Grosgoch have approached the landowner and applicant to try and secure a financial contribution towards the Chapel and Hall.</p> <p>A141017 - Construction of new Area Primary School and associated parking and external amenity areas - APPROVED</p> <p>A150160 – Caeronnen Penffordd Objections Received – Noted</p>
<p>8.</p> <p>a.</p>	<p><u>Unrhyw Fater Arall /Any other business</u></p> <p>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf/Date and time of next meeting</p> <p>Penderfynwyd cynnal y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, 3ydd o Dachwedd am 7.30yh yn Neuadd Bentref Drefach. It was decided to hold the next meeting on the 3rd November at 7.30pm at Drefach Village Hall.</p>

b.	Mi fydd agoriad swyddogol Neuadd yr Hafod, Gorsgoch nos Wener y 23ain o Hydref am 7.00pm. The official opening of Gorsgoch Village Hall will be held on the 23 rd of October at 7.00pm.
c.	Cyflymder Drefach Speed Limit – Derbyniwyd llythr wrth Mr a Mrs Griffiths yn gofyn am y rhwystr cyflymder gael ei ostwng i 30 mya o 40mya, yn enwedig pan fydd yr ysgol newydd yn cael ei godi. Mi fydd y Clerc yn cysylltu gyda’r Cyngor Sir i weld beth fydd y cyflymder pan fydd yr ysgol yn cael ei chodi. A letter was received from Mr and Mrs Griffiths asking for the speed limit to be reduced to 30mph from 40mph, especially as a new school will be built in the village. The Clerk will contact the County Council to ask what the speed limit will be when the school will be built.

Arwyddwyd:.....

Dyddiad:.....